# cwmpawd

*eglwys efengylaidd gymraeg caerdydd*

Rhif 65
Mawrth - Mehefin 2012

# Golygyddol

## *Gwynn Williams*

Daw'r rhifyn hwn rhwng Gŵyl Ddewi a'r Pasg, dau ddigwyddiad sydd a chysylltiad digon pendant rhyngddynt. Fel y gwelwn yn un o'n herthyglau, cofiwn adeg y Pasg am farwolaeth yr Arglwydd Iesu Grist sydd yn sicrhau maddeuant a bywyd newydd i bechaduriaid. Wrth gofio ein nawdd sant, cofiwn am un a fu gydag eraill yn cyhoeddi'r newyddion da yma i genedl y Cymry yn y bumed a'r chweched ganrif, pregethu a ddygodd lawer o ffrwyth gan droi'r genedl yn un Gristnogol i raddau helaeth.

Ers y Nadolig rydym fel cynulleidfa wedi bod yn darllen cyfrol Gwyn Davies, *Golau Gwlad*, sydd yn rhoi arolwg o hanes Cristnogaeth yng Nghymru dros y canrifoedd gan gynnwys, wrth gwrs, gyfnod Dewi. Ni allwn ond rhyfeddu at ras Duw tuag at y genedl yma sydd wedi bod erioed yn 'dipyn o boendod i'r rhai sy'n credu mewn trefn'. Bu yna, yn sicr, gyfnodau ysbrydol tywyll, ond fe fu sawl oes aur hefyd. Tristwch heddiw yw mai atgof yn unig yw'r cyfnodau hynny a bod y gwaddol Cristnogol bellach nid yn unig yn diflannu ond hefyd yn cael ei ddiystyru gan bobl ein gwlad.

Yr alwad i ni yw i ddal yn ffyddlon, heb golli calon, gan gofio nad yw Duw yn newid, ac fel rydym wedi bod yn ein hatgoffa ein hunain yn ein hastudiaethau yn Sechareia ar fore Sul, nid yw dydd y pethau bychain i'w ddirmygu oherwydd gall fod yn ernes o bethau gwell i ddod. Dyfalbarhawn mewn gweddi felly, gan gofio mai 'Nid trwy lu ac nid trwy nerth, ond trwy fy ysbryd' y mae Duw yn dwyn ei waith i ben.

# Y Pasg - Gwir Ac

## *Adrian Brake*

Beth mae'r Pasg yn ei olygu i chi? Y mae'r rhan fwyaf o bobl ym Mhrydain heddiw yn gweld y Pasg fel cyfle i fwyta gormod o siocled! Amcangyfrifir bod 80 miliwn o wyau siocled wedi cael eu prynu ym Mhrydain y llynedd, a rhaid i mi gyfaddef fy mod i'n gyfrifol am un neu ddau ohonynt! Ond ydych chi erioed wedi meddwl am wir ystyr yr ŵyl hon? Rhaid bod mwy iddi na dim ond siocled neu gwningod ...

Oes wir, fel y mae'r Beibl yn dangos yn glir. I Gristnogion, pobl sydd wedi cael eu hachub oddi wrth eu pechodau trwy ras Duw, y mae'r Pasg yn uchafbwynt y flwyddyn gan ei fod yn rhoi cyfle iddynt atgofio canolbwynt a sail eu ffydd, sef marwolaeth ac atgyfodiad eu Hiachawdwr Iesu Grist. Dyna sydd y tu ôl i ŵyl y Pasg yn wreiddiol: marwolaeth ac atgyfodiad Mab Duw.

# hos i Ddathlu

Yr oedd Iesu ei hun wedi dweud wrth ei ddisgyblion y byddai'n marw mewn modd ofnadwy o dreisgar ac atgyfodi y trydydd dydd (Marc 8:31). A dyna'n union a ddigwyddodd yn ystod penwythnos y Pasg cyntaf dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Fel yr atgoffwyd ni gan ffilm Mel Gibson, *The Passion of the Christ*, croesholiwyd Iesu gan y Rhufeiniaid yn sgil cais yr Iddewon.

Ond pam y llofruddiwyd ef fel hyn? Beth oedd ei drosedd? Rhaid ei fod wedi cyflawni rhyw bechod erchyll i ddioddef mewn modd mor gywilyddus. Ond na - yr oedd yn hollol ddiniwed! Nid oedd erioed wedi pechu. Nid oedd erioed wedi torri cyfraith Duw. Dyna dystiolaeth glir yr Ysgrythur (Ioan 8:46; Hebreaid 4:15; 1 Pedr 2:22). Disgrifir Iesu gan yr apostol Paul fel un na 'wybu beth oedd pechu.' Pam felly y croeshoeliwyd ef?

Bu farw yn ein lle. Nid yw'r un ohonom ni fel Iesu. Nid ydym ni heb bechod. Yr ydym i gyd wedi pechu a thorri cyfraith Duw dro ar ôl ar ôl tro. Yr ydym wedi meddwl meddyliau pechadurus. Yr ydym wedi dweud geiriau pechadurus. Yr ydym wedi gweithredu mewn modd pechadurus. 'Nid oes neb cyfiawn, nac oes un … Y mae pawb wedi gwyro, yn ddi-fudd ynghyd; nid oes un a wna ddaioni, nac oes, dim un' (Rhufeiniaid 3:10-12). Ac felly rhaid i ni gael ein cosbi.

Yr ydym yn gyfarwydd â'r egwyddor hon yn ein system gyfreithiol. Os yw rhywun yn euog o ryw drosedd, rhaid iddo gael ei gosbi. Bydd rhaid i berson sydd wedi cael ei ddal yn gyrru'n rhy gyflym dalu dirwy a chael pwyntiau ar ei drwydded. Bydd rhaid i berson sydd wedi llofruddio rhywun arall dreulio amser yn y carchar. Y mae'r ddwy drosedd yn wahanol iawn i'w gilydd ac mae'r ddwy gosb yn wahanol iawn i'w gilydd ond mae'r egwyddor yr un; rhaid i'r troseddwr gael ei gosbi.

Ac yn ur un modd rhaid i'n troseddau ni yn erbyn cyfraith Duw gael eu cosbi,

a'r gosb am bechod yw marwolaeth: marwolaeth gorfforol, marwolaeth ysbrydol, marwolaeth dragwyddol; 'Y mae pechod yn talu cyflog, sef marwolaeth' (Rhufeiniaid 6:23). Ond mae Duw yn caru ei bobl â chariad tragwyddol. Sut y gall ymdrin â ni felly? Y mae'n Dduw cyfiawn ac felly rhaid iddo gosbi pechod. Ond y mae'n Dduw llawn cariad at ei bobl, Duw 'sy'n maddau, yn raslon a thrugarog, araf i ddigio' (Nehemia 9:17). Yn ôl y Salmydd, y mae Duw 'yn dda a maddeugar, ac yn llawn trugaredd i bawb sy'n galw'n [arno]' (Salm 86:5).

Sut y gall wneud y ddau beth, fel petai? Sut y gall Duw faddau ei bobl a chosbi pechodau ei bobl yr un pryd? Y mae hyn yn swnio'n amhosibl ond yr oedd y Drindod wedi cynllunio ffordd i wneud hyn cyn creu'r byd. Byddai Mab Duw yn marw yn lle ei bobl. Byddai Mab Duw yn cymryd y gosb yn lle pechaduriaid. Yn y modd hwn, byddai Duw yn trosglwyddo ein pechodau i'w Fab a'i gosbi amdanynt (Eseia 53:6; 1 Pedr 2:24) a throsglywddo cyfiawnder a bywyd perffaith Crist i ni a'n derbyn fel pobl gyfiawn (Rhufeiniaid 3:21-26).

A dyna a ddigwyddodd ar y dydd Gwener y Groglith cyntaf hwnnw, pan groeshoeliwyd Iesu y tu allan i Jerwsalem. Cosbwyd Iesu yn ein lle a gwnaethpwyd ffordd i ni gael ein maddau a'n derbyn gan Dduw: 'Ni wybu Crist beth oedd pechu, ond gwnaeth Duw Ef yn un â phechod drosom ni, er mwyn i ni ddod yn gyfiawnder Duw ynddo Ef' (2 Corinthiaid 5:21).

Dyna arwyddocâd ei groeshoelio ar ddydd Gwener y Groglith. Ond beth am ei atgyfodiad ar fore Sul y Pasg? Beth oedd pwrpas yr atgyfodiad? Y mae Paul yn rhoi'r ateb i ni: 'Cafodd Ef ei draddodi i farwolaeth am ein camweddau, a'i gyfodi i'n cyfiawnhau ni.' Yr oedd Iesu wedi ei offrymu ei hun fel aberth dros ein pechodau ar y Gwener, ond sut y byddai pobl yn gwybod bod ei aberth yn foddhaol a bod Duw wedi ei dderbyn fel aberth digonol dros bechodau mor ddifrifol?

Trwy godi ei Fab o'r meirw cyhoeddodd Duw i bawb

iddo dderbyn aberth Crist ar Galfari. Dangosodd i bawb fod modd i bechod gael ei faddau trwy gredu yng Nghrist a thrwy ymddiried yn ei waith gorffenedig ar y groes. Yn syml, yr oedd atgyfodiad Iesu ar y trydydd dydd yn brawf pendant diymwad o werth marwolaeth Iesu ar y Gwener.

A dyma pam y daeth Iesu i'r byd hwn yn yr Ymgnawdoliad, i farw dros ein pechodau ac i godi er ein cyfiawnhad (Marc 10:45). Dros benwythnos y Pasg cyflawnodd yn berffaith y dasg y daeth i'w chyflawni adeg y Nadolig. Y mae'n amhosibl deall pwrpas y Nadolig heb sylweddoli gwir ystyr ac arwyddocâd y Pasg. Fel y dywedodd hen Lywodraethwr Banc Lloegr, Eddie George, mewn cyfweliad am effaith masnach y Nadolig ar yr economi, 'The full significance of Christmas will not be known until Easter.'Y mae'n glir felly pam y mae'r Pasg mor arbennig i bob Cristion.

Y mae'n rhoi cyfle iddynt ddiolch i Duw am y ddau ddigwyddiad pwysicaf yn hanes y byd hyd yma, y ddau ddigwyddiad sydd wedi trawsnewid eu cyflwr o flaen Duw yn llwyr, y ddau ddigwyddiad sydd yn sicrhau bod ganddynt faddeuant, lle yn nheulu Duw a gobaith nad yw'r byd na'r diafol yn gallu eu dwyn, sef marwolaeth ac atgyfodiad eu Gwaredwr a'u Brenin.

Heb amheuaeth, y mae gan bob un sy'n Gristion adeg y Pasg eleni wir achos i ddathlu. Beth amdanoch chi? Ydych chi yn Gristion? Ydych chi wedi gofyn i Dduw i faddau eich pechodau ar sail gwaith ei Fab ar y groes? Os na, pam? 'Oherwydd, yng ngeiriau'r Ysgrythur, 'bydd pob un sy'n galw ar enw yr Arglwydd yn cael ei achub, pwy bynnag yw' (Rhufeiniaid 10:13).

# Iechyd Seicolego

## *David James Morse*

***Mae'r erthygl hon yn grynodeb o gyfres a draddodwyd gan yr awdur yn yr Ynysoedd Dedwydd***

Yma mae'r gair *Cristion* yn golygu rhywun sydd wedi ei eni yn ysbrydol oherwydd daeth yr Ysbryd Glân i roi bywyd i'w ysbryd wrth iddo ymroddi i Iesu Grist fel Gwaredwr ac Arglwydd.

Ynghyd â'r gwendidau seicolegol sy'n rhan o'n natur syrthiedig, mae'r Cristion yn dioddef hefyd o'r tensiynau sy'n codi o anwybyddu effaith yr ailenedigaeth arno, tensiynau rhwng dymuniadau'r Ysbryd Glân a dymuniadau'r natur syrthiedig sy'n blaenori o hyd yn yr enaid.

Arwydd o iechyd seicolegol yn y Cristion yw tangnefedd Duw, 'sydd goruwch pob deall' (Phil 4:7). Yr hyn sy'n ymyrryd â'r tangnefedd hwn yw pryder, sy'n deillio o beidio ag ufuddhau i arweiniad yr Ysbryd. Nid yw'r pryder yn gorffen wrth inni ei wrthod. Rhaid wrth ymroddi i'r Ysbryd er mwyn i'r tangnefedd ddychwel. Nid wrth geisio cael gwared ar y tywyllwch y mae goleuo ystafell, ond wrth rhoi'r golau ymlaen!

> *Peidiwch â phryderu am ddim, ond ym mhob peth gwneler eich deisyfiadau yn hysbys i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch. A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu. (Phil 4:6-7)*

Yn y gyfres hon, nodwyd tri maes ble mae bendith Duw yn helaeth ar gyfer ei blant, ond sy'n troi yn achos tensiynau wrth inni eu diystyrru.

**1. Ffydd**

Mae'r Ysbryd yn ein galw i ymddiried trwy ffydd yn ei allu ac i ddibynnu arno. Ond nid yw'n ein gorfodi. Ei bwrpas pennaf yw ein dwyn i berthynas o gariad gyda'r Arglwydd Iesu. Ac ni ellir gorfodi cariad! Diffyg ymddiriedaeth ynddo sy'n creu pryder yn y Cristion. Rhaid byw ar sicrwydd: 'Y mae gennyf gryfder at bob gofyn trwy yr hwn sydd yn fy nerthu i' (Phil 4:13). Os dibynnwn yn unig

ar ein hadnoddau ein hunain, daw pryder i bwyso arnom.

**2. Gobaith**
Mae'r gobaith sy'n dod o'r Ysbryd Glân yn sicrwydd, nid fel y gobaith anwadal sy'n rhan o'n natur ddynol. Heb y sicrwydd hwn, mae pryder yn ein goddiweddyd eto.

Nid ein hamgylchiadau yw ffynhonell y gobaith hwn, ond Duw ei hun. Mae Llyfr y Salmau yn llawn o hyn. Er enghraifft, Salm 39:7,

> *Ac yn awr, Arglwydd, am beth y disgwyliaf?*
> *Y mae fy ngobaith ynot ti.*

Felly mae'n rhaid treulio digon o amser yng nghwmni'r Arglwydd er mwyn i'w Berson ddylanwadu arnom yn fwy na'n hamgylchiadau. Mae cysegr ein perthynas bersonol gydag ef yn holl bwysig.

> *A bydded i Dduw, ffynhonell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith (Rhuf 15:13).*

**3. Cariad**
Gair pennaf Groeg y Testament Newydd am *gariad* yw AGAPE. Nid teimlad yw, ond gweithred yr ewyllys: penderfyniad i geisio lles y lleill ym mhob sefyllfa. Nid, 'Beth sydd yma i mi?', ond, 'Pwy y gallaf helpu yma?'

Mae'r agwedd hon ar fywyd yn amhosibl i'n natur syrthiedig, oherwydd ei hunanoldeb. Ond nid yw AGAPE byth yn cyfeirio at ymdrech ddynol ond at allu Duw. 'Y mae cariad (AGAPE) Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni' (Rhuf 5:5).

Nid ydym yn teimlo AGAPE'r Ysbryd, ac nid yw yn ein gorfodi. Mae'n rhaid derbyn ei allu trwy ffydd a sylweddoli ei waith wrth weld y canlyniadau.

Wrth inni anwybyddu'r fendith hon, mae pryder dros ein lles ein hunain yn cymryd drosodd.

Dyma'r bywyd Cristnogol iawn: ymddiried yng ngallu'r Ysbryd ynom, a sylweddoli bod yr 'hwn sy'n eich galw yn ffyddlon ac fe gyflawna ef hyn' (1 Thes. 5:24).

# Clwb Darllen y C

## *Amanda Griffiths*

**Llyfr gosod Tymor y Nadolig: Eryl Davies**
***Dr Martyn Lloyd-Jones***
**(Bitesize Biographies, llyfrau EP)**
**£5**

Mae clybiau darllen yn boblogaidd iawn ar hyn o bryd ymysg cymdeithasau a ffrindiau, ac yn rhywbeth rydyn ni yn y capel wedi ei wneud yn achlysurol dros y blynyddoedd. Cyn y Nadolig cyhoeddwyd llyfr Dr Eryl Davies ar Dr D Martyn Lloyd-Jones – a dyma'r llyfr y dewison ni ei ddarllen.

Llyfr swmpus yw hwn o ran ei gynnwys - ond byr o ran hyd (newyddion da i'r rheini ohonoch sy'n cael trafferth gorffen llyfr hir!); dim ond 127 o dudalennau sydd ynddo, a'r cwbl wedi'i ysgrifennu mewn ffordd bersonol a hawdd ei ddarllen. Does dim angen eich bod wedi darllen y ddwy gyfrol arall ar fywyd Dr Martyn Lloyd-Jones i ddeall y llyfr yma, achos mae'r awdur yn rhoi cipolwg cynnil a chryno iawn ar holl fywyd y Doctor, o'i blentyndod yng Nghymru, symud i Lundain, dod yn Gristion, dod yn feddyg, cael yr alwad i'r weinidogaeth ac wedyn ei weinidogaeth yng Nghymru a Llundain.

Cytunodd pawb yn y grŵp darllen iddynt fynd trwy'r llyfr yn rhwydd a chyflym ar y cyfan,

ond eu bod nhw hefyd wedi derbyn budd mawr o ddarllen am ffydd anhygoel y Doctor – a hwnnw'n cael ei amlygu ym mhob agwedd o'i fywyd personol a chyhoeddus. Trafodwyd ei allu academaidd - nid yn unig mewn materion Beiblaidd a'i allu i ddeall rhannau o'r Ysgrythur a'u cymhwyso i fywyd bob dydd, ond hefyd ei yrfa addawol fel un o feddygon gorau Llundain ar y pryd. Mae ei gymeriad gwylaidd yn cael ei gyfleu'n amlwg trwy eiriau'r awdur.

Roedd gan amryw o bobl yn y grŵp darllen resymau personol dros ddarllen y llyfr hwn: rhai wedi ei glywed yn pregethu, eraill wedi ei olynu yn Sandfields – a minnau'n ffrindiau gyda merch yr awdur! Ond beth bynnag oedd ein cymhelliad personol dros ei ddarllen, yr un oedd y casgliad ar ddiwedd y drafodaeth. Dyma lyfr y dylai pob Cristion, hen ac ifanc (yng Nghymru yn arbennig), ei ddarllen, er mwyn dysgu mwy am un o gewri ein ffydd, ac i weld ei bwyslais ar ddarllen a deall yr Efengyl:

> *He read the Bible daily and thoroughly, disciplining himself to read through the entire Bible once each year. He encouraged his congregation to do the same . . . .*

a'r etifeddiaeth a adawodd ef i ni:

> *He provided an example of contemporary, biblical preaching which was compelling and powerful but gospel-centered.*

Nid astudiaeth academaidd yn unig oedd darllen y llyfr yma, achos cawsom ynddo ddarlun hyfryd o'r dyn hefyd – yn ŵr a thad cariadus iawn, yn ffrind mynwesol a ffyddlon a pherson a oedd yn mwynhau gweithio a delio â phobl.

Dyma lyfr felly y dylid ei ddarllen am nifer o resymau. Ewch ati i ddysgu mwy am "the greatest preacher in Christendom".

# Dau Ymwelydd â C

## *Noel Gibbard*

Ar 7 Mawrth 1739, deffrôdd George Whitfield ar hanner nos, ac ar ôl canu salm a gweddïo, paratôdd i groesi mewn cwch o Loegr i Gymru. Ar ôl gadael y cwch, marchogodd drwy'r nos i Gasnewydd; gorffwys ychydig yno, a chyrraedd Caerdydd am un ar ddeg y bore. Casglodd ychydig bobl o'i gwmpas wrth y White Lion, a phregethodd Whitfield i'r 'trueiniaid'. Methwyd â chael adeilad i bregethu ynddo, ond cafodd ei gyfaill, William Seward (a fu farw yn ddiweddarach o ganlyniad i'w erlid am ei ffydd), ganiatâd i bregethu yn Neuadd y Dref, ac yno, o sedd y barnwr, y pregethodd Whitfield am 4 o'r gloch y prynhawn.

Ei destun oedd Ioan 3:3, 'Rhaid eich geni chwi drachefn', un o'i hoff destunau. Pan ofynnwyd iddo un tro, paham roedd yn pregethu arno mor aml, ateb y diwygiwr oedd, 'Oherwydd rhaid eich geni chwi drachefn'.

Ond roedd diwygiwr arall yng Nghaerdydd y diwrnod hwnnw hefyd. Bu Whitfield yn gohebu ag ef, a gwyddai yn ei galon eu bod ill dau o gyffelyb ysbryd. Yn syth ar ôl y cyfarfod aeth Whitfield i gyfarfod â Howel Harris.

Syndod i Harris oedd cyfarchiad ei gyd-ddiwygiwr, 'A wyddoch chwi i'ch pechodau gael eu maddau?' Ni chlywodd gyfarchiad tebyg o'r blaen. Aeth y ddau i'w llety, a rhoddodd Whitfield neges i'r rhai a'u dilynodd yno. Yn y llety, rhannodd y ddau eu profiadau; cael ychydig swper, ac ar ôl canu salm, noswylio. Credai Whitfield fod Satan hyd yn oed yn eiddigeddus o'u llawenydd.

Y bore wedyn, pregethodd Whitfield eto yn Neuadd y Dref, a Howel Harris yn eistedd wrth ei ochr. Oddi allan roedd amryw o wrthwynebwyr yn gwneud eu gorau glas i rwystro'r cyfarfod. Llusgent gadno marw,

# haerdydd

a gweiddi a bloeddio fel pe byddent yn hela cadno byw. Ond llwyddodd Whitfield i bregethu. Aeth y ddau, ac eraill, i wasanaeth yn Eglwys y Plwyf, a phregethodd Whitfield eto am 4 o'r gloch, ac wedyn am 6 o'r gloch cyfarfu ag aelodau y seiat yng Nghaerdydd.

Cafodd ei neges ddylanwad dwfn ar y gwrandawyr; amryw mewn dagrau, ac yn pwyso ar y diwygiwr i aros yn eu plith. Ond am 6 o'r gloch y bore 9 Mawrth, gadael am Gasnewydd a wnaeth Whitfield a Harris.

Roedd y cyfarfyddiad hwn yn arwyddocaol iawn. Dyma sail y cyfeillgarwch clòs rhwng y ddau ddiwygiwr. Gallent anghydweld, ond ni wnaeth hynny amharu ar eu perthynas. Fe ddengys y wedd brofiadol oedd i Fethodistiaeth, fel yn nghwestiwn Whitfield i Harris, ond roedd gwedd gymdeithasol hefyd, sef y seiat, lle y byddai'r aelodau yn rhannu profiad, addoli, a dysgu catecism. Calfiniaid oedd y ddau ddiwygiwr, a bu eu harweinyddiaeth yn fodd i sicrhau perthynas agos rhwng y gwaith yn y ddwy wlad, Lloegr a Chymru. Howel Harris, gyda Daniel Rowland ac eraill, a ddiogelodd y pwyslais Calfinaidd ymhlith Methodistiaid Cymru.

**Pwyllgor Cwmpawd**

Leri George
Noel Gibbard
Amanda Griffiths
Christine James
Catrin Lewis
Gwynn Williams

# Holi Hwn a Hon

# Owain

**Sut dest ti'n Gristion?**
Cwestiwn anodd! Mae fy nhystiolaeth i'n newid ychydig bob tro rwy'n ei hadrodd! Des i ddim yn Gristion mewn fflach, roedd hi'n fwy o broses nag un diwrnod penodol. Dechreuodd y broses pan es i i'r Gwesyll am y tro cyntaf. Wnes i ddim dod yn Gristion yr wythnos honno, ond ar ôl y Gwersyll, wedi gweld pobl ifanc fy oedran i yn darllen y Beibl ac yn gwrando ar bregethau yn ystod yr wythnos, dechreuais i wneud yr un fath yn y cwrdd ar y Sul, yn lle chwarae gyda Gameboy (sori, Wncl Gwynn). Felly am y tro cyntaf, roedd mynd i'r capel yn brofiad ble roeddwn i'n gwrando ac yn raddol dechreuodd fy nghalon feddalu ychydig.

Y flwyddyn ganlynol es i i'r Gwersyll unwaith eto. Rwy'n credu mai dyna pryd y sylweddolais am y tro cyntaf beth yw'r Efengyl mewn gwirionedd: fy mhechod i a'm hangen am achubiaeth. Wedyn yn ystod rhyw siwrnai car rywbryd ar ôl y Gwersyll, roeddwn i'n myfyrio (neu'n hanner breuddwydio!) i mi fy hun a dechreuais feddwl am y pethau yma. Sylweddolais bryd hynny fy mod i'n credu'r hyn a glywais ac felly fy mod i'n Gristion. Mae'n bosib fy mod i'n Gristion cyn hynny, ond efallai ddim! Pryd oedd y siwrnai car hwnnw? Ac i ble roeddwn i'n mynd? Does dim clem gen i erbyn hyn! Felly tystiolaeth eitha annelwig.

**P'un yw dy hoff emyn?**
Cwestiwn lot haws. Emyn Saesneg (sori, Dad), sef 'It is Well with My Soul' gan Horatio Spafford. Er bod yna gyfieithad

# James

Cymraeg, wrth gwrs, mae'r geiriau 'It is Well with My Soul' yn fwy o her i fod yn fodlon yn ysbrydol na 'Diogel wyf gyda thi' y cyfieithiad. Mae'n help meddwl am y geiriau yma pryd bynnag rydw i (neu rywun arall yn amlach na pheidio) yn mynd trwy gyfnod anodd.

**Beth sy'n gymorth i ti yn dy gerddediad ysbrydol?**

Mae sawl peth yn help: darllen, gweddïo etc. Ond un peth rwyf wedi'i ffeindio'n gymorth mawr yw cymdeithas gyda'r saint. Byddai'r frwydr Gristnogol yn un anodd iawn heb gwmni. Mae'n braf bod yn rhan o eglwys sydd yn mwynhau siarad a helpu ein gilydd gymaint! Rhwng y cyrddau dydd Sul, cwrdd gweddi, a'r clwb nos Wener (a hefyd pethau fel te a gwyliau'r capel ar ben hynny), mae bod yng nghwmni pobl sydd yn rhannu'r un frwydr â mi yn hwb enfawr. Wrth gwrs, mae cael ffrindiau agos sydd yn Gristnogion yn gymorth hefyd, ble mae modd

rhannu pethau mwy personol a herio eich gilydd bob dydd i fyw mwy a mwy i Dduw.

**Pa wlad hoffet ti ymweld â hi a pham ?**
Mae'n sir y dylwn i ddweud 'America, i weld Dad', gan y bydd ef yn Boston tan ganol Mehefin, ond na... A bod yn onest hoffwn i fynd i rywle i gael ychydig o *culture shock*, ac mae llefydd yn Asia ac Affrica yn apelio am y rheswm hynny. Ond pe bawn i'n cael dewis unrhyw le, hoffwn i fynd i Israel, i Jerwsalem, i weld ble y dechreuodd y cyfan. Ond wrth gwrs byddai hynny ychydig yn rhy beryglus ar y foment.

**Rwyt ti'n aelod brwd o Undeb Cristnogol Ysgol Glantaf. Fedri di rannu ychydig am beth sy'n digwydd yn yr UC ar hyn o bryd?**
Mae'n fraint bod yn rhan o'r cyfan a bod yn onest, ac mae pethau gwych yn digwydd yn yr ysgol. Dyma amserlen bras o beth sy'n digwydd bob wythnos.

- Amser egwyl dydd Llun: Cwrdd Gweddi (ar gyfer y Chweched yn unig)
- Amser cinio dydd Mercher: Cyfarfod yr Undeb Cristnogol
- Amser egwyl Dydd Gwener: Cwrdd Gweddi ar gyfer y Cwrs Alffa
- Amser cinio Dydd Gwener: Cyfarfod Cwrs Alffa.

Felly mae eitha tipyn yn digwydd mewn wythnos! Mae'r niferoedd yn cynyddu o fewn yr Undeb ei hun: mae llawer o ferched ifanc a llawer o'r Chweched, ond nid oes cymaint rhwng y ddau begwn hyn, ym mlwyddyn 10 ac 11. Yn ogystal mae'r Cwrs Alffa (ar gyfer bl. 10-13 yn unig), fel y cyfarfod dydd Mercher, yn tynnu niferoedd da (ar gyfartaledd rhwng 20-30 ar gyfer y ddau).

Ein pwyntiau gweddi fel Undeb yw y bydd mwy yn dod wrth gwrs; y byddwn ni fel arweinwyr ifanc yn ymddwn yn ddoeth; y bydd arweinwyr newydd yn codi o fewn blwyddyn 10 ac 11 ar gyfer y dyfodol ; ac ynglŷn â'r cwrs Alffa y bydd y nifer yna heb gefndir Cristnogol (a llawer ohonynt yn anghredinwyr llwyr) yn cael eu calonnau wedi'u meddalu.

# Cysur y Groes

(Darn o un o bregethau John Elias)

Gwrando, Gristion! Fe aeth Crist â thri pheth i ti i fyny i'r pren: dy natur – dy enw – dy bechodau.

Dy natur di oedd amdano: dy achos di oedd ganddo: a dy bechodau di oedd arno. Aeth â hwy i'r pren: ac yna, yn y tair awr dywyll, wele y peth mwyaf erioed yn cymeryd lle ar y pren: Iesu yn dioddef, yn talu, yn boddloni, yn gorchfygu, ac yn marw!

Dacw Iesu, o'r diwedd yn dyfod i lawr oddi ar y pren. A ydyw y tri pheth a nodwyd yn dyfod i lawr gydag ef? Nac ydynt – dim ond dau – mae wedi gadael un o'r tri ar ôl. Aeth i lawr i'r bedd – atgyfododd – esgynodd i'r nefoedd – ac y mae yno yn awr yn uchel iawn: ac yno ni welaf gydag ef ond dau beth allan o'r tri a nodwyd.

Beth a adawodd ef ar ôl? Medd rhyw eiddil gwan: ai fy natur i? Nage, yn wir! Mae efe yn dy natur di y funud hon yn eistedd ar orseddfainc y Mawredd yn y goruwchleoedd.

Mae arnaf ofn, meddi, iddo adael fy enw i ar ôl. O naddo, frawd gwan! Mae dy enw yn eglur ar ddwyfronneg yr Archoffeiriad mawr yn y gwir gysegr: mae ef yno, yn y nef ei hun, yn ymddangos yn awr gerbron Duw trosot ti.

Wel ynte, ti a weli beth a adawyd ganddo ar ôl ar y pren: dy bechodau– dy bechodau! Diolch am hynny! Ni ddeuant i fyny byth i'th euog-farnu di sy'n pwyso ar angau y groes. Mae'r *fond* [sef dogfen ysgrifenedig] wedi ei hoelio wrth y pren.

# Newyddion

**Babis!**
Llongyfarchiadau mawr i: John a Jenny Williams ar eni Elin Elizabeth; Trystan a Katherine Hallam ar enedigaeth Siwan Mair; a Jon ac Eleri Glanfield ar ddyfodiad Trystan Marc. Rydym ni'n llawenhau gyda chi ac yn diolch i Dduw am eu dyfodiad diogel i'r byd.

**Gŵyl Ddewi**
Ymunodd grŵp da o aelodau a theuluoedd y capel, a ffrindiau a chysylltiadau, i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Blinwyd y plant yn lân gan Wncwl Emyr ar ddechrau'r noson gyda sesiwn gêmau cyn i bawb ddod at ei gilydd i fwynhau pryd blasus. Yna ar ôl i'r plant noswylio, cafwyd cwis gan Gwydion i'r oedolion ac epilog gan Gwynn i gloi noson hyfryd. Diolch i bawb fu wrthi'n trefnu a choginio.

**Sbri**
Bu criw Sbri wrthi'n cynnal clwb gwyliau i blant 4 - 11 ar ddau fore yn ystod hanner tymor Chwefror. Roedd hi'n dda gweld rhai plant a fu yn y clybiau gwyliau blaenorol yn dychwelyd, a rhai wynebau newydd hefyd. Diolch i bawb fu wrthi'n trefnu ac yn edrych ar ôl y plant.

**Swyddi**
Llongyfarchiadau i Lois Bowen ar ei swydd newydd fel cynorthwy-ydd dysgu yn Ysgol Fro Morgannwg. Gweddiwn y bydd hi'n setlo'n gyflym ac yn cael blas ar y gwaith.

Mae Wyn James bellach wedi cyrraedd Boston a bydd yno am dri mis er mwyn ymchwilio yng Ngholeg Harvard. Cofiwn amdano, a'r teulu, yn y cyfnod yma ar wahân.

Dechreuodd Emyr James gyfnod o brofiad gwaith yn Eglwys Bro Eirwg, gyda'r gweinidog Andy Christofides. Gweddïwn y bydd o fudd iddo ac edrychwn ymlaen i ddysgu mwy wrtho am waith yr eglwys honno.

**Gwyliau Capel**
Bydd gwyliau capel eleni ar Ebrill 19 - 21 yng Nghanolfan Cristnogol Haven ym Mhenfro. Cysylltwch â Leri George os nad ydych chi wedi rhoi'ch enw, ond yn dymuno dod.

# I'r Dyddiadur

## *Yn ystod yr wythnos...*

**Clwb Hapus Awr** | nos Lun |5.30 - 6.30pm
**Cyfarfod Gweddi** | nos Fawrth | 7.40pm
**Paned a Sgwrs** | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
**Cylch y Plant Bach** | bore Gwener | 10.00 - 11.30am
**Clwb y Bobl Ifainc** | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys, ar wahan i Glwb Hapus Awr a gynhelir yn Ysgol Gynradd Melin Gruffydd.

## *Ar ddydd Sul...*

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys. Cynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

| | | |
|---|---|---|
| *Ebrill* | *1* | *Gwynn Williams* |
| | *8* | *Emyr James / Gwynn Williams* |
| | *15* | *Trystan Hallam / Emyr James* |
| | *22* | *Gwynn Williams* |
| | *29* | *Emyr James / Trystan Hallam* |
| *Mai* | *6* | *Gwynn Williams* |
| | *13* | *Gwynn Williams* |
| | *20* | *Trystan Hallam* |
| | *27* | *Gwynn Williams* |
| *Mehefin* | *3* | *Gwynn Williams / Trystan Hallam* |
| | *10* | *Trystan Hallam* |
| | *17* | *Gwynn Williams* |
| | *24* | *Wyn Hughes* |

**Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd**
**Stryd Rhymni, Cathays, Caerdydd**

**www.cwmpawd.org**